CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

Wrth i mi eistedd i lawr i ysgrifennu neges eleni, rwy'n meddwl yn ôl i ddiwedd 2019. Wrth ysgrifennu bryd hynny, roeddwn yn edrych ymlaen at yr hyn roeddwn yn gobeithio a fyddai'n flwyddyn bositif, gan dalu teyrnged i garedigrwydd ac ysbryd pobl y Rhyl, gan siarad am sut y mae cymuned yn ein dwyn at ein gilydd.

Wrth edrych yn ôl, mae'r geiriau hynny'n edrych yn broffwydol bron. Mae'r Rhyl wedi wynebu cyfnodau anodd nifer o weithiau, ond mae eleni wedi bod yn eithriadol.

Heb os, mae 2020 wedi bod yn anodd i ni i gyd. Busnesau, unigolion, teuluoedd, yr ifanc a'r hen fel ei gilydd … nid oes neb nad yw wedi ei gyffwrdd gan y pandemig.

Ond, unwaith eto, mae byddinoedd o wirfoddolwyr a gweithwyr allweddol wedi camu ymlaen, gan helpu'r sawl sydd ei angen fwyaf. O ofalu am y rhai sy'n agored i niwed i ddysgu pobl ifanc, mae pob rhan o'n tref wedi gweithio gyda'n gilydd. O bob cyfeiriad, bu penderfyniad a pharodrwydd i ddod trwy hyn. Mae pobl wedi addasu, gan newid eu ffordd o weithio a chan ddangos penderfyniad gwirioneddol i wynebu'r heriau.

Nid oeddwn yn disgwyl gwasanaethu ail dymor fek maer, ond mae wedi bod yn anrhydedd go iawn yn ystod y cyfnod hwn. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi gweld yn bersonol sut mae ein cymunedau wedi dod at ei gilydd. Mae arwyr ym mhob cornel o'n tref, ac rwy'n talu teyrnged i bob un ohonoch.

Bydd yr wythnosau a'r misoedd nesaf yn gofyn am amynedd a phenderfyniad, fel y bydd mwy yn cael ei ofyn gennym. Ond drwy gefnogi ein gilydd – cadw pellter diogel, gwisgo ein gorchuddion wyneb a diheintio – gallwn, a byddwn, yn dod drwy hyn. Bydd y Rhyl braf yma eto; bydd ein traethau yn llawn teuluodd unwaith eto, bydd pobl yn gallu gadael eu cartrefi'n ddiogel a bydd busnesau yn adfywio.

Nes bydd hynny'n wir, byddwn yn mynd trwy'r misoedd nesaf gyda'n gilydd. Rwyf eisiau cloi drwy feddwl am ein gweithwyr GIG, y gwasanaethau argyfwng a phawb a fydd yn rhoi eu Nadolig er mwyn i ni allu mwynhau peth normalrwydd dros ein Nadolig ni. Ar ran y cyngor tref, rwy'n dymuno blwyddyn newydd hapus ac iach a gobeithio y bydd 2021 yn dod â heddwch i bawb.

**Y Cynghorydd Ellie Chard**

**Maer y Rhyl**